

MODEL TYC PROMO-CYMRU:

TRAWSFFURFIAD, YMGYSYLLTIAD, CYFATHREBIAD

Mae **ProMo-Cymru** yn gweithio tuag at greu newid positif a pherthnasau parhaol rhwng unigolion, teuluoedd a chymunedau.

Rydym yn darparu datrysiadau arloesol a chreadigol gyda sgysiau ystyrlon a thechnoleg ddigidol. Rydym yn credu mewn cydweithrediad, cyfathrebu ac ymgysylltu, ac wedi bod yn gwneud hyn yn llwyddiannus am dros 30 o flynyddoedd.

t: **029 2046 2222**
e: **info@promo.cymru**
w: **www.promo.cymru**

ProMo-Cymru,
17 Stryd Gorllewin Bute,
Bae Caerdydd, CF10 5EP

Rhif Cofrestru Cwmni:
1816889

Rhif Elusen:
1094652



YDYCH CHI'N CYSYLLTU Â'CH DEFNYDDWYR TERFYNOL?

YN NHIRWEDD HEDDIW O DORIADAU A GOFYNION CYNYDDOL, MAE LLAWER O WASANAETHAU YN WYNEBU HERIAU MAWR YN YMWNEUD AG YMGYSYLLTU A CHYFATHREBU GYDA'U CYNULLEIDFA TARGED A DEFNYDDWYR TERFYNOL.

Mae yna botensial enfawr i dechnoleg cyfathrebu ddigidol drawsffurfio'r ffordd rydych chi'n cyrraedd ac yn ymgysylltu â'ch cynulleidfa mewn ffordd ystyrlon a chynaliadwy.

Gall **ProMo-Cymru** helpu i hwyluso, trosglwyddo a chefnogi meddwl a datrysiadau arloesol i'r rhwystrau a'r heriau hyn, yn eich caniatáu chi i gyrraedd, gwranddo a chymryd rhan mewn dialog gyda'ch cynulleidfaoedd, darparu llwybrau, gwasanaethau ataliol a chyfarwyddo effeithiol.

ARWAIN TRAWSFFURFIAD DIGIDOL YNG NGHYMRU

Mae **ProMo-Cymru** ar y blaen pan ddaw at gyfathrebiadau sy'n datblygu yn yr oes ddigidol. Dros yr 20 mlynedd diwethaf, rydym wedi bod yn canolbwyntio ar gyd-gynhyrchu prosiectau digidol llwyddiannus sydd yn gosod dinasyddion wrth galon y broses.

Mae **ProMo-Cymru** wedi gweithio law yn law gyda Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i synio a throsglwyddo dulliau arloesol o gyflwyno gwasanaeth. Rydym yn gwneud hyn wrth gynnig y wybodaeth, cyngor a chymorth cywir; ac wrth hwyluso cefnogaeth gyfoed ddigidol ac wyneb i wyneb ac ymrwymiad dinasyddion. Mae ein prosiectau hefyd yn darparu sianeli i alluogi clywed llais pobl ac i hysbysu'r sector breifat am anghenion lleol.

Mewn cyfnod ble roedd gwybodaeth ieuencid ar gael ar bapur yn unig, creuwyd TheSprout, model i hwyluso gwybodaeth ieuencid ymrwymol ar-lein, yng Nghaerdydd. Yna llwyddwyd i ddyblygu'r model yma ar draws yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill, sefydlom Meic, y llinell gymorth gyntaf i bobl ifanc yn Ewrop sydd wedi'i harwain gan eiriolaeth, yn ymgorffori'r defnydd o sawl pwynt mynediad.

Yn 2014, wedi dysgu o'n prosiectau blaenorol, datblygwyd PwyntTeulu Cymru i ddarparu cymorth a chefnogaeth i deuluoedd yng Nghymru sydd â'r angen mwyaf.

Yn fwy diweddar, rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac eraill i gyflwyno'r gwasanaeth Llais a Dewis Pen-y-bont ar Ogwr i gefnogi oedolion i gael mynediad i wasanaethau eiriolaeth addas yn y sir.

Gyda'n hanes o wneud gwahaniaeth, caniatewch i **ProMo-Cymru** arwain eich trawsffurfiad cyfathrebu digidol.

MODEL TYC PROMO-CYMRU: TRAWSFFURFIO, YMGYSYLLTU, CYFATHREBU

MAE DEDDFWRIAETH
DIWEDDAR LLYWODRAETH
CYMRU YN PWYSLEISIO
BOD RHAID I GYRFF
SECTOR CYHOEDDUS
WEITHIO'N WELL GYDA
PHOBL A CHYMUNEDAU A'I
GILYDD, ATAL PROBLEMAU
A DEFNYDDIO DULL
CYDGYSYLLTIEDIG.

Mae **ProMo-Cymru** wedi dyfeisio model cyfathrebu digidol integredig arloesol wedi'i siapio gydag egwyddorion cydweithredol, un sydd wedi ei weithredu'n llwyddiannus gyda'n prosiectau fel TheSprout, Meic, CLIC, PwyntTeulu Cymru a Llais a Dewis Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae ein model **TYC** unigryw yn ymgorffori gwefan, llinell gymorth gwybodaeth, cyngor a chymorth (ffôn, neges testun, sgwrs ar-lein) a chyfryngau cymdeithasol

gellir ei addasu'n hawdd i'w ddefnyddio gydag gwahanol gynulleidfaoedd. Byddem yn creu model yn arbennig i chi gyda'r elfennau rydych chi ei angen.

Mae gan **ProMo-Cymru** y wybodaeth, sgiliau a'r cynhwysedd i drosglwyddo'r gwasanaethau rydych chi ei angen yn uniongyrchol, neu gyflenwi sianeli cyfathrebu a llinellau cymorth integredig gyda sawl pwynt cysylltiad cymhleth.

PRIF NODWEDDION Y MODEL TYC



Llwyfan i rannu eich prif negeseuon



Pwynt cyswllt sengl i gael mynediad i wasanaethau



Llwyfan i gysylltu gyda dinasyddion a hyrwyddo'u llais



Dull yn canolbwyntio ar y cwsmer i drosglwyddo datrysiadau sydd yn cyrraedd eich canlyniadau



Rhith ganolfan galw gyda llinell gymorth ar y ffôn, gwasanaeth neges testun, sgwrsio ar-lein ac e-bost

EGWYDDORION CRAIDD Y MODEL TYC



CYMORTH GWEITHREDOL

Yn canolbwyntio ar addysg, ataliad, ymyrryd cynnar a hunangymorth



CYD-DDYLUNIO

Gwranddo ac ymrwymo dinasyddion yn weithredol yn y dyluniad o'r gwasanaeth



CANOLBWYNTIO AR DDINASYDDION

Darparu'r cymorth cywir ar yr amser cywir yn y ffordd dymunai dinasyddion





HYGYRCHEDD

Darparu gwybodaeth mewn Cymraeg a Saesneg syml a chryno

MODEL TYC:

DULL CYFATHREBU INTEGREDIG





MAE EIN STRATEGAETHAU YMRWYMO
GYDA THEULUOEDD SYDD YN
YNYSIG YN DDIGIDOL, DAEARYDDOL
NEU GYMDEITHASOL WEDI RHOI
MEWNWELEDIAD GWERTHFAWR I'R
RHWYSTRAU A'R HERIAU PELLACH
SYDD YN EU HWYNEBU.

HELPU CHI I WELLA CANLYNIADAU I DDINASYDDION

MAE EIN MODEL TYC ARLOESOL WEDI CAEL EI DDATBLYGU YN CANOLBWYNTIO’N ARBENNIG AR GYNHWYSIAD, HYGIRCHEDD A CHYRHAEDDIAD, AC MAE WEDI PROFI’N ARBENNIG O EFFEITHIOL YN CYRRAEDD AC YMRWYMO CYNULLEIDFA EANG YNG NGHYMRU, NA CHLYWIR GANDDYNT YN AML.

Mae Aseidiadau Anghenion y Boblogaeth yng Nghymru ddiweddar yn amlygu bod dinasgyddion yn parhau i’w chael yn anodd darganfod a chael mynediad i wasanaethau. Yn aml mae gwybodaeth yn cael ei gyflwyno mewn iaith anghyraeddadwy gyda phwyntiau mynediad cymhleth sydd yn drysu’r defnyddwyr terfynol.

Mae ein strategaethau ymrwymo gyda theuluoedd sydd yn ynysig yn ddigidol, daearyddol neu gymdeithasol wedi rhoi mewnwelediad gwerthfawr i’r rhwystrau a’r heriau pellach sydd yn eu hwynebu.

Bwriad **ProMo-Cymru** ydy adeiladu ar lwyddiant ein hymdrechion **ataliad ac ymyriad**

cynnar, i ymateb yn gywir y tro cyntaf ac i barhau i **hyrwyddo a hwyluso gwydnwch dinasgyddion, teuluoedd a chymunedau.**

Mae’r model TYC yn prif arf i gefnogi mentrau Llywodraeth Cymru a llywodraethau lleol

Mae’r model **TYC** yn prif arf i gefnogi mentrau Llywodraeth Cymru a llywodraethau lleol fel y Cynnig Gofal Plant, creu cymunedau cryf, datblygiadau yn ymwneud ag atal Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod (ACE), gwasanaethau gwybodaeth a chyingor perthnasol ac ymrwymiad parhaol i Dechrau’n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf, cyd-gynhyrchu ataliad a gofal iechyd darbodus.

Yn y cyd-destun presennol a beth sydd i ddod, gallem chwarae rhan hanfodol yn helpu chi i gyflawni’r blaenoriaethau yn y Rhaglen Lywodraethu: Symud Cymru Ymlaen 2016 - 2021 fel adlewyrchir yn:

7 nod llesiant a 5 Egwyddor Cynladwyedd y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

EIN GWASANAETHAU

MAE PROMO-CYMRU YN
CANOLBWYNTIO AR GREU
LLWYBRAU GWYBODAETH
A CHYFATHREBU CLIR.



CREU CYNWYS

Creu cynnwys pwrpasol, o ansawdd, i hysbysu ac ymgysylltu â'ch defnyddwyr terfynol, gellir ei reoli drwy system rheoli cynnwys (CMS).



CYFATHREBU A MARCHNATA DIGIDOL

Dyfeisio strategaethau marchnata digidol addas gan ddefnyddio SEO, Google AdWords, marchnata cynnwys a marchnata cyfryngau cymdeithasol i gysylltu gyda'r defnyddwyr terfynol.



BRANDIO A GWERTHOEDD

Yn gweithio gyda chi a'ch defnyddwyr terfynol i ddatblygu'r brandio cywir ar gyfer eich gwasanaeth, yn sicrhau eich bod yn cyfathrebu'n glir pwy ydych chi a'r pethau gallech chi ei gynnig.



CYDLYNU A RHEOLI STRATEGOL

Darparu cydlyniaeth a rheolaeth strategol ddi-dor o drosglwyddo gwasanaeth er mwyn sicrhau cyrraedd eich targedau.



CANOLFAN GALW GYDA CHYNGHORWYR HYFFORDEDIG

Tîm o gynghorwyr medrus iawn yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i'r defnyddwyr terfynol. Mae oriau gweithredu yn hyblyg, yn ddibynnol ar eich anghenion.



TECHNOLEG RITH GANOLFAN GALW A DATBLYGU BAS DATA

Sefydlu technoleg canolfan galw aml-sianel, wedi'i sefydlu yn y cwmwl, yn cynnig diogelwch a hyblygrwydd a system rheoli data pwrpasol i gasglu achosion i fonitro a gwerthuso.



DADANSODDI

Mae deall sut mae'ch teclynnau cyfathrebu yn perfformio yn allweddol i hysbysu datblygiadau cyfredol. Byddem yn darparu'r wybodaeth yma i'ch caniatáu i ddilyn a gwerthuso'ch allbwn.



DYLUNIO A DATBLYGU GWEFAN

Dylunio a datblygu gwefannau, gan gynnwys rhai wedi'u diogelu gyda SSL, yn defnyddio dull cyd-gynhyrchu i gynnwys nodweddion a swyddogaethau i weddu anghenion y defnyddwyr terfynol.



YMRWYMIAD AC YMGYNGHORIAD DINASYDDION

Mae popeth yn cychwyn gyda sgwrs yn **ProMo-Cymru**. Rydym yn credu'n gryf mewn ymgynghori a chyd-ddylunio gyda'n defnyddwyr terfynol. Mae'r broses yma yn sicrhau ein bod yn creu gwasanaethau a chynnyrch sydd yn cael ei werthfawrogi gan ein defnyddwyr terfynol.

TYSTEBAU

"NID YDYCH CHI'N CAEL YR ATEBION RYDYCH CHI'N CHWILIO AMDANYNT BOB TRO PAN FYDDECH CHI'N GOFYN I WEITHWYR PROFFESIYNOL, NEU MAE'N CAEL EI ROI MEWN FFORDD ANNEALLADWY. RYDYM YN CHWILIO AM WYBODAETH UNION A HAWDD SY'N HYGyrch."

Mam-gu o Lyn Ebwy

"POPETH O FLYNYDDOEDD CYNNAR I HELPU PLANT GYDAG ISELDER PAN YN HŶN. MAE'R WYBODAETH AR GYLLIDEBU YN WYCH YN ENWEDIG GYDA PHAWB YN CEISIO ARBED ARIAN. RWYF NEWYDD DDARGANFOD Y DUDALEN HON A GYDA GEFEILLIAID 9 OED BYDDAF YN BENDANT YN DEFNYDDIO'R WYBODAETH AC YN DYCHWELYD ETO YN OGYSTAL Â'I AWGRYMU I ERAILL HEFYD."

Mam o Gaerdydd.

"I GYCHWYN HOFFWN DDWEUD RWYF NEWYDD FOD AR EICH GWEFAN AC AM DUDALEN GWE WYCH YDYW A BYDDAF YN CYFEIRIO LLAWER O'M NGHLEIENTIAID IDDO"

**Gweithiwr proffesiynol
o Flaenau Gwent**

"GAF I DDWEUD DIOLCH YN FAWR IAWN I CHI AM YSGRIFENNU'R ERTHYGL YMA (ISELDER AR ÔL Y GENI). ROEDDWN YN WYLO WRTH DDARLLEN HWN AC RWYF YN GWYBOD BYDD YN GWNEUD GWAHANIAETH I FI A'M FFRIND YN OGYSTAL Â CHYMAINT O BOBL ERAILL SYDD YN PROFI'R UN PETH. MAE MOR BWYSIG BOD POBL YN RHANNU EU PROFIADAU AC YN DYSGU GAN EI GILYDD."

Mam o Gasnewydd

"MAE PROMO-CYMRU YN ARLOESOL, YN GRAFF YN DECHNOLEGOL AC YN GOSOD BARN POBL IFANC A CHYMUNEDAU YN GANOLOG I'R FFORDD MAENT YN MEDDWL."

**Simon Morris, Arweinydd
Cyflawniad Cyngor Sir Caerdydd**

ASTUDIAETHAU ACHOS



“RWYF YN GWEITHIO GYDA FFOADUR O SYRIA SYDD ANGEN RHYWLE I AROS...”

Galwodd gwirfoddolwr sydd yn gweithio gyda ffoaduriaid y llinell gymorth. Eglurodd ei fod yn cefnogi oedolyn ifanc oedd yn ffoadur o Syria. Roedd y dyn wedi derbyn yr hawl i aros yn ddiweddar. Roedd wedi symud o'r llety darparwyd yn ystod ei asesiad a bellach yn aros ar sofffa ffrindiau. Nid oedd ganddo incwm. Roedd y dyn wedi gwneud cais am lwfans chwilio am waith ond yn y cyfamser, tra roedd hyn yn cael ei gymeradwyo, nid oedd arian ganddo. Roedd y galwr eisiau cyngor am y camau nesaf i'w cymryd i gael mynediad i dai. Cysylltodd y cyngorwyr ag asiantaeth tai lleol i gael gwybodaeth am y ffordd gorau i'r person symud ymlaen. Eglurodd yr asiantaeth tai bod angen i'r person gyflwyno ei hun fel digartref a dangos prawf o'i statws mewnfydiad. Adroddodd y cyngorwr yn ôl i'r gwirfoddolwr oedd yn ddiolchgar am y wybodaeth a chytunodd i alw'r gwasanaeth lleol ac eirioli ar ran y dyn ifanc.

“MAE FY MERCH WEDI CAEL EI ECSBLOETIO’N RHYWIOL...”

Cysylltodd rhiant â'r llinell gymorth yn poeni am ei merch yn ei harddegau. Roedd y ferch wedi dioddef ecsploetiaeth rywiol plentyn ac wedi profi trawma sylweddol o hynny. Roedd wedi cael ei gosod mewn uned arbenigol, ar ôl gorchymyn gofal gwirfoddol, ac roedd yn derbyn asesiadau am anawsterau dysgu a phroblemau iechyd meddwl. Yn dilyn arolwg, oherwydd yr hyn a welir fel diffyg cynnydd, cafodd yr asesiadau eu hatal a symudwyd y person ifanc i uned gyffredinol heb gefnogaeth arbenigol. Roedd Gwasanaethau Cymdeithasol yn edrych ar wneud cais i'r llysoedd am orchymyn gofal llawn. Roedd y rhesymau pam yn aneglur i'r fam ac roedd eisiau gwybod am hawliau ei merch a hithau yn y sefyllfa yma. Roedd y cyngorwr yn gallu cefnogi'r rhiant wrth ddarparu gwybodaeth am y mathau o orchymynion gofal a'u defnydd. Rhoddwyd manylion elusen sydd yn rhoi mynediad am ddim i gefnogaeth gyfreithiol i'r fam; penodwyd eiriolwr i'r person ifanc i sicrhau bod ei llais yn cael ei glywed a'i hawliau yn cael eu cyfarfod.



“RWYF ANGEN Y BILSEN BORE WEDYN OND GYDA GORMOD O GWILYDD...”

Cysylltodd person ifanc â'r llinell gymorth yn poeni ei bod yn feichiog ar ôl cael rhyw anniogel. Roedd y person ifanc eisiau cymryd y bilsen bore wedyn ond gyda gormod o gywilydd gofyn amdano. Trafododd y cynghorydd yr opsiynau am ble i gael y bilsen a herio'r person ifanc yn ysgafn am y canlyniadau o beidio gwneud rhywbeth. Penderfynodd y person ifanc y byddai'n mynd i'r fferylllydd. Parhaodd y person ifanc i yrru negeseuon testun tra ar y ffordd yno ond ar ôl cyrraedd roedd ganddi ormod o gywilydd i ofyn wrth y cownter. Eglurodd y cynghorydd am ffiniau proffesiynol ac awgrymodd i'r person ifanc ysgrifennu nodyn ar y ffôn a dangos hwn i'r fferylllydd os nad oedd eisiau dweud y geiriau yn uchel. Cytunodd y person ifanc i wneud hyn. Cysylltodd yn ôl â'r llinell gymorth a rhannu bod y dechneg wedi bod yn llwyddiannus a bod y fferylllydd wedi bod yn gefnogol ac yn gynorthwyol iawn.



“MAE FY MABAN NEWYDD YN DDIFRIFOL Wael AC MAE ANGEN CYMORTH ARIANNOL AR FY NHEULU...”

Cysylltodd tad â'r llinell gymorth, roedd ei chweched plentyn wedi'i eni yn gynnar. Roedd gan y plentyn broblemau iechyd difrifol ac yn gorfod bod mewn ysbyty pell i ffwrdd am gyfnod hir iawn. Roedd y teulu yn derbyn buddion ac yn cael trafferth ymdopi'n ariannol oherwydd y sefyllfa argyfwng yma. Eglurodd y tad bod rhywun wedi sôn yn yr ysbyty am gronfa cymorth ddewisol. Roedd y tad wedi ffonio'r llinell gymorth cronfa cymorth ddewisol ond wedi cael cyngor i gysylltu â'r ganolfan byd gwaith. Cynigodd y cyngorwr i eirioli ar ran y galwr. Ffoniodd y cyngorwr llinell gymorth y gronfa ac egluro'r sefyllfa. Wedi'i selio ar y wybodaeth, dywedwyd wrth y cynghorydd ei fod yn debygol y byddant yn gymwys am y gronfa cymorth argyfwng. Bwydodd y cyngorwr y wybodaeth yma yn ôl i'r galwr a chynnig cefnogaeth yn y dyfodol os oedd angen.



“MAE FY FFRIND MEWN PERTHYNAS YMOSODOL...”

Cysylltodd ffrind i fam newydd â'r llinell gymorth am gyngor. Dywedodd efallai bod ei ffrind yn dioddef gydag iselder ar ôl y geni, a chredai ei bod mewn perthynas ymosodol. Trafododd y cynghorwr y sefyllfa gyda'r galwr ac awgrymu pethau i gefnogi ei ffrind. Er esiampl, ei hannog i siarad â'i hymwelydd iechyd/doctor am yr iselder ôl geni. Gofynnodd y cynghorwr os oedd yn credu bod ei ffrind a'i tri o blant yn ddiogel. Dywedodd y galwr nad oedd yn credu eu bod yn ddiogel gan fod y partner yn rheoli ac yn ymosodol, ond ddim yn dreisgar. Awgrymodd y cynghorwyr hefyd y gallai'r ffrind gysylltu â'r Ymwelydd Iechyd a siarad â nhw am ei phryderon, ond esboniodd y gall hyn olygu bod gwybodaeth yn cael ei gyfeirio at y Gwasanaethau Plant. Yn olaf, awgrymodd y cynghorydd os oedd yn credu bod y plant mewn perygl dylid cysylltu â'r Gwasanaethau Plant heb oedi.

“BETH YW FY HAWLIAU FEL TAD?”

Galwad gan dad yn gofyn sut i gael cyfrifoldeb rhieniol. Yn ddiweddar roedd ei fab wedi symud i mewn gydag ef gan nad oedd ei fam yn gallu ymdopi â'i ymddygiad. Cafodd ei fab ei eni cyn 2003 felly mae'n rhaid i'r tad wneud cais am gyfrifoldeb rhieniol. Dywedodd ei fab ei fod eisieu dychwelyd at ei fam. Dywedodd y tad bod ei fab yn ymddwyn yn beryglus (ysmygu canabis, yfed alcohol a thriwanta) ac nid oedd yn dod ymlaen â phartner ei fam (roeddent wedi bod yn cwffio), felly ni chredai y byddai'n syniad da iddo ddychwelyd. Roedd y tad wedi bod mewn cysylltiad â'r ysgol. Nid oedd yr ysgol yn poeni am ei ymddygiad ond roedd yn tangyflawni. Trafododd y cynghorwr am archwilio'r problemau gyda'r mab, cadw cyfathrebiad gyda'r ysgol, cysylltu â Teuluoedd yn Gyntaf, a darparu manylion cyswllt gwasanaethau cefnogol eraill.



“RWYF YN POENI BOD RHYWUN AM BOSTIO LLUNIAU NOETH OHONOF AR-LEIN...”

Cysylltodd person ifanc â'r llinell gymorth trwy neges ar-lein mewn cyflwr trallodus iawn. Dywedodd ei bod wedi gyrru lluniau anwedus i berson ar gyfryngau cymdeithasol oedd bellach yn gofyn iddi yrru mwy, ac os nad fyddai'n gwneud hynny yna bydd y lluniau yn cael eu gwneud yn gyhoeddus. Treuliodd y cynghorydd amser hir yn trafod yr opsiynau a'r canlyniadau posib er bod y person ifanc yn nerfus iawn i wneud unrhyw beth rhag ofn i'r lluniau gael eu cyhoeddi. Archwiliodd y cynghorwr beth fyddai'n gallu digwydd os nad yw'n dweud wrth neb. Cytunodd y person ifanc i gysylltu â'r Ganolfan Cam-fanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein (CEOP) i wneud adroddiad am y sefyllfa. Eglurodd y cynghorwr y broses ac arhosodd ar y llinell tra roedd yn gwneud hyn. Trafodwyd yr opsiwn o'r person ifanc yn dweud wrth ei rhieni hefyd fel y gallant ei chefnogi a gweithredu ymhellach os oedd angen. Cytunodd i wneud hyn a diolchodd i'r cynghorwr am ei help.



BETH NESAF?

Mae **ProMo-Cymru** yn deall y realiti, heriau a chyfyngiadau o weithio mewn tirwedd o newid sylweddol, cyllidau llai, blaenoriaethau cystadleuol a gofynion cynyddol.

Hoffem wneud cais i gyfarfod gyda chi er mwyn gwranddo ar eich anghenion ac arddangos sut gall ein dull ni helpu chi i gyrraedd eich canlyniadau a'ch amcanion.

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:

Marco Gil-Cervantes
Prif Weithredwr, ProMo-Cymru

ff: 029 2046 2222
e: info@promo.cymru
g: www.promo.cymru

ProMo-Cymru,
17 Stryd Gorllewin Bute,
Bae Caerdydd, CF10 5EP

Rhif Cofrestru Cwmni:
1816889

Rhif Elusen:
1094652





www.promo.cymru